HM Treasury

Ministry of Housing, Communities & Local Government

Department for Transport

# Cronfa Codi'r Gwastad:

# Prosbectws

Mawrth 2021

HM Treasury

Ministry of Housing, Communities & Local Government

Department for Transport

# Cronfa Codi'r Gwastad:

## Prosbectws

Mawrth 2021

© Hawlfraint y Goron 2021

Cafodd y cyhoeddiad hwn ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded, ewch at nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Bydd raid i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint perthnasol os ydym wedi nodi fod hawlfraint gan unrhyw drydydd parti.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar: www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni ar public.enquiries@hmtreasury.gov.uk

ISBN 978-1-911680-59-8 PU3098

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Rhagair | | 1 |
| Pennod 1 | Cyflwyniad | 2 |
| Pennod 2 | Sut fydd y Gronfa'n gweithredu | 4 |
| Pennod 3 | Cymhwysedd | 6 |
| Pennod 4 | Themâu buddsoddi ar gyfer rownd gyntaf yr ariannu yn 2021 - 22 | 8 |
| Pennod 5 | Dulliau o ariannu ac o dargedu | 14 |
| Pennod 6 | Paratoi cynigion | 16 |
| Pennod 7 | Meini Prawf Asesu | 19 |
| Pennod 8 | Cymryd Penderfyniadau | 21 |
| Pennod 9 | Monitro a Gwerthuso | 22 |
| Pennod 10 | Cefnogi lleoedd gyda'u bidiau | 23 |

# Rhagair

Mae seilwaith yn gwella bywyd pob dydd. Mae pont newydd neu lôn fysiau'n ei gwneud yn haws i bobl leol deithio; mae gwella canol trefi'n helpu busnesau lleol ac yn cadarnhau balchder mewn lle; ac mae uwchraddio safleoedd treftadaeth ardaloedd yn cryfhau'r economi leol ac yn cryfhau hunaniaeth ddinesig. Dyma'r pethau mae pobl yn dibynnu arnyn nhw bob dydd mewn cymunedau i fyny ac i lawr y wlad – dyma seilwaith bywyd pob dydd.

Dyna pam rwyf wedi creu'r Gronfa Codi'r Gwastad, sy'n berthnasol i'r DU gyfan. Mae'n dod â'r Adran Drafnidiaeth, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Trysorlys ynghyd i fuddsoddi £4.8 biliwn mewn seilwaith lleol, gwerthfawr. Drwy hynny, mae'n cael gwared o'r seilos rhwng adrannau, yn galluogi ardaloedd i ganolbwyntio ar y prosiectau o'r flaenoriaeth bennaf iddyn nhw yn hytrach na'u bod yn gorfod ffurfio prosiectau i gyd-fynd â diffiniadau cul o gymhwyster am gyllid. Mae hefyd yn ymgorffori dull yr Adolygiad Llyfr Gwyrdd, gan ganolbwyntio ar anghenion lleoedd unigol ac ar yr achos strategol dros buddsoddi.

Er bod y Gronfa ar agor i bob ardal, fe'i bwriadwyd yn arbennig i gefnogi buddsoddi mewn lleoedd ble y byddai'n gallu gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywyd pob dydd, ac eithrio ardaloedd ôl ddiwydiannol, trefi difreintiedig a chymunedau arfordirol. Mae hefyd wedi'i dylunio i helpu ardaloedd i ddewis blaenoriaethau lleol gwirioneddol ar gyfer buddsoddi, drwy osod cefnogaeth rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys yr Aelodau Seneddol lleol os yw'n dymuno cymryd rhan, wrth galon ei chenhadaeth. Mae ardaloedd ar draws y DU yn rhannu anghenion tebyg, felly, bydd y Gronfa'n cael ei darparu mewn partneriaeth gydag ardaloedd ar draws Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Ac yn olaf, rhan yw'r Gronfa hon o gynnig ehangach y llywodraeth i godi'r gwastad o ran cyfleoedd ledled y DU. Mae ein Cynllun ar gyfer Swyddi'n dal i gefnogi cyflogaeth ledled y DU. Mae ein Strategaeth Seilwaith Genedlaethol yn cyflwyno ein hagwedd hir dymor at fuddsoddi. Heddiw, rydym yn cadarnhau Banc Seilwaith y DU – gyda'i bencadlys yn Leeds – i fuddsoddi mewn prosiectau cyhoeddus a phreifat i annog twf ac i greu swyddi gwyrdd. Ac mae'r Cynllun ar gyfer Twf, a gyhoeddwyd yn y Gyllideb, yn dangos sut rydym ni'n dod â'r rhain, ac elfennau eraill, at ei gilydd.

Mae hyn oll yn gosod cenhadaeth ganolog y Llywodraeth wrth eu calon a hefyd yn ei sefydlu yn y Gronfa hon: i uno a chodi gwastad y wlad.



Canghellor y Trysorlys y Gwir Anrhydeddus Rishi Sunak AS

# Pennod 1

# **Cyflwyniad**

1.1 Mae buddsoddi mewn seilwaith yn gallu gwella bywydau drwy annog balchder pobl yn eu cymunedau, dod â mwy o fannau yn y DU yn nes at gyfleon a dangos fod y llywodraeth yn gallu dangos ei bod yn darparu ar gyfer anghenion gwahanol pob man a phob lle daearyddol. Mae ein cymunedau lleol a'r dolenni rhyngddyn nhw ar draws y DU yn rhannau hanfodol o'r economi, y diwylliant a'r gymdeithas rydyn ni'n eu rhannu.

1.2 Er gwaethaf hynny, mae yna dal wahaniaethau economaidd yn rhwng rhannau o'r DU, gan gynnwys ein dinasoedd, trefi ôl ddiwydiannol a'n cymunedau gwledig ac arfordirol. Mae'r canlyniadau'r gwahaniaethau economaidd hyn yn hollol real, maen nhw'n effeithio ar fywydau pobl drwy eu cyflogau, y cyfleoedd i gael gwaith ac ar gyfleoedd iechyd a dewisiadau mewn bywyd. Mae taclo'r gwahaniaethau economaidd hyn ac annog ffyniant fel rhan o 'godi'r gwastad' o ran y rhanbarthau sydd wedi'u gadael ar ôl yn y DU, yn flaenoriaeth ar gyfer y Llywodraeth hon.

1.3 Gellir mesur ffyniant mewn sawl ffordd. Ond, i lawer o bobl, y mesur pwysicaf o lwyddiant economaidd yw'r newidiadau positif y maen nhw'n eu gweld a'r balchder y maen nhw'n ei deimlo yn y mannau y maen nhw'n eu galw'n gartref. Mae pobl eisiau gallu edych ar eu trefi a'u pentrefi a sylweddoli fod eu cartrefi a'u cymunedau'n well nag oedden nhw bum mlynedd yn ôl.

1.4 Yn y cywair hwn, mae'r prosiectau seilwaith sy'n dylanwadu fwyaf – y rhai sy'n helpu i ennyn balchder mewn ardaloedd – yn aml yn rhai llai o ran graddfa a daearyddiaeth, adfywio canol tref, buddsoddi'n lleol mewn adnoddau diwylliannol neu uwchraddio seilwaith trafnidiaeth lleol. Wrth i'r wlad adfer o effeithiau economaidd digynsail Covid-19, mae'n bwysicach nag erioed rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiadau sydd nid yn unig yn dod â buddion economaidd ond sydd hefyd yn helpu i glymu cymunedau gyda'i gilydd.

1.5 Cyhoeddwyd y Gronfa Codi'r Gwastad yn yr Adolygiad o Wariant 2020 i gefnogi cymunedau i wireddu'r weledigaeth hon. Bydd y Gronfa'n canolbwyntio ar fuddsoddi cyfalaf mewn seilwaith lleol ac felly adeiladu ar a chydgrynhoi rhaglenni blaenorol megis y Gronfa Dŵf Leol a'r Gronfa Drefi. Bydd yn cael effaith weledol, ddiriaethol ar bobl a lleoedd ac yn cefnogi adferiad economaidd. Drwy wneud hynny, bydd hefyd y creu cyfleodd ar gyfer tŵf ledled y wlad, gan flaenoriaethu bidiau sy'n buddsoddi mewn adfywio a thŵf mewn mannau mewn angen ac mewn ardaloedd o gynhyrchiant a chysylltedd isel. Mae'r prosbectws hwn hefyd yn dangos sut y gallai ardaloedd fanteisio ar rownd gyntaf yr ariannu.

1.6 Mae'r Gronfa'n rhan o gyd-destun ehangach cyhoeddiad y Canghellor yn yr Adolygiad o Wariant o wariant cyfalaf o £100 biliwn yn 2021-22, cynnydd o £30 biliwn mewn arian parod o gymharu â 2019-20. Mae hyn yn rhan o gynlluniau i ddarparu mwy na £600 biliwn o fuddsoddiad gros yn y sector cyhoeddus yn ystod y pum mlynedd nesaf. Yn ystod y blynyddoedd i ddod, bydd pob rhan o'r wlad yn teimlo buddion y buddsoddiad hwn: o well band eang

i uwchraddio trafnidiaeth ac amddiffynfeydd rhag llifogydd lleol.  Yn ogystal â hyn, bydd buddsoddi mewn trafnidiaeth trwy HS2, y Cynllun Rheilffyrdd Cyfun a'r Setliadau Trafnidiaeth Rhwng Dinasoedd, ac ymrwymiad y Llywodraeth i drawsnewid seilwaith bysiau a beiciau yn cryfhau asgwrn cefn cysylltedd ledled y wlad.  Yn yr haf, bydd Syr Peter Hendy yn cyhoeddi Adolygiad Cysylltedd yr Undeb a fydd yn canolbwyntio ar alluogi'r Deyrnas Unedig i fod yn fwy cysylltiedig nag erioed o'r blaen.

1.7 Rydym ni'n cydnabod y bydd codi'r gwastad yn gofyn am weithredu mewn sawl maes, o atgyfnerthu rhanbarthau ein dinasoedd i gefnogi ein trefi sydd mewn trafferthion, i sbarduno clystyrau diwydiannol yn y sectorau a fydd y gyrru economi'r dyfodol - bydd y Gronfa'n darparu fel rhan o becyn eang o ymyriadau cysylltiedig ledled y DU, gan gynnwys:

- **Cronfa Adnewyddu Gymunedol y DU,** a fydd yn galluogi ardaloedd ledled y DU i ymgeisio am £220 miliwn o arian ychwanegol wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, y bwriedir ei lansio yn 2022.  Daw cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i ben ar ôl 2022-23 a daw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin DU yn eu lle fel rhaglen sy'n wahanol i Gronfa Adnewyddu Cymunedol y DU ac a fydd yn helpu i godi'r gwastad a chreu cyfleoedd ledled y DU yn y mannau lle mae mwyaf o angen ac ar wahân i, ond yn cyd-fynd â'r, Gronfa Codi'r Gwastad, drwy fuddsoddi mewn sgiliau, mentergarwch a chyflogaeth.  Nid yw strwythur ariannu'r Gronfa Codi'r Gwastad yn gosod cynsail ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU.
- Bydd y **Gronfa Perchnogaeth Gymunedol y DU**, a fydd yn nerthu cymunedau i warchod asedau cymunedol hanfodol yn eu hardal drwy ariannu eu prynu, yn cefnogi llesiant cymdeithasol cymunedau lleol.
- Bydd y **Cynllun Hybu Swyddi,** sy'n adeiladu ar rwydwaith Byd Gwaith a Mwy yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnig help wedi'i deilwra i helpu pobl i gael gwaith, gan gynnwys trwy Ganolfannau Ieuenctid,  Ailgychwyn a Kickstart.  Bydd y Cynllun Hybu Swyddi yn cefnogi adfer yn y tymor hir ar ôl effeithiau economaidd digynsail Covid-19.
- Bydd y **rhaglen Porthladdoedd Rhydd,** a fydd yn sefydlu canolfannau cenedlaethol ar gyfer masnachu'n fyd-eang ac yn buddsoddi ym mhob cenedl yn y DU, yn hyrwyddo adfywio a chreu swyddi ac yn feithrinfa i arloesedd a fydd yn dwysau effeithiau economaidd ein  porthladdoedd ac yn cynhyrchu mwy o weithgaredd economaidd mewn ardaloedd sydd angen eu hadfywio led led y DU.
- Bydd **Banc Seilwaith y DU,** a fydd yn cynnig arian i awdurdodau lleol ac i'r sector preifat  ar gyfer prosiectau seilwaith a fydd yn helpu i gyrraedd amcanion Llywodraeth y DU ar gyfer newid hinsawdd a thwf economaidd rhanbarthol.  Bydd ganddo hefyd swyddogaeth gynghori i helpu gyda datblygu a darparu prosiectau.
- Mae'r **Gronfa Drefi**, sy'n darparu £3.6 biliwn ar gyfer adfywio economaidd a thwf economaidd yn y tymor hir mewn trefi difreintiedig drwy adnewyddu ac ail ffurfio canol y trefi a'r strydoedd mawr yn y fath fodd a fydd yn annog twf, gwella profiadau defnyddwyr ac yn sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol.

# Pennod 2

# Sut fydd y Gronfa'n gweithredu

2.1 Bydd y Gronfa Codi'r Gwastad yn buddsoddi mewn seilwaith lleol a fydd yn effeithio'n weladwy ar bobl a'u cymunedau. Mae hynny'n cynnwys amrywiaeth o flaenoriaethau buddsoddi lleol, gwerth uchel, gan gynnwys cynlluniau trafnidiaeth lleol, prosiectau adfywio trefol ac asedau diwylliannol. Mae'r Gronfa'n cael ei rheoli ar y cyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Drafnidiaeth. Mae gan y Gronfa draws adrannol hon agwedd newydd at fuddsoddi'n lleol a bydd yn cael gwared ar silos yn Whitehall, sy'n ei gwneud yn anodd i gymryd agwedd holistig at anghenion seilwaith ardaloedd lleol.

2.2 Yn yr Adolygiad Gwariant, ymrwymodd Llywodraeth y DU i dalu £4 biliwn i ddechrau i'r Gronfa Codi'r Gwastad yn Lloegr yn ystod y pedair blynedd nesaf (hyd at 2024 – 25) a gosod ar naill ochr o leiaf £800 miliwn ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd Llywodraeth y DU yn defnyddio pwerau cymorth ariannol newydd Bil y Farchnad Fewnol yn y Deyrnas Unedig fel bod y Gronfa ar gael yn y DU gyfan, gan alluogi cymunedau i dderbyn y buddsoddiad a'r gefnogaeth y maen nhw eu hangen i adfer o'r pandemig. Felly, bydd hyd at £4.8 biliwn ar gael i'r Gronfa ledled y DU tan 2024-25, gydag o leiaf £800 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

2.3 Ble bo'n briodol, bydd Trysorlys Ei Mawrhydi, y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Drafnidiaeth yn gofyn am gyngor gan y gweinyddiaethau datganoledig perthnasol wrth dynnu'r rhestr fer o brosiectau a fydd yn cael eu darparu yn eu hardaloedd nhw, gan gynnwys cyngor ar y gallu i ddarparu ac a fyddai hynny'n cyd-fynd â'r ddarpariaeth bresennol.

## Gweithredu yn Lloegr, yr Alban a Chymru

2.4 Yn Lloegr, yr Alban a Chymru, bydd cyllid yn cael ei ddarparu trwy'r awdurdodau lleol. Cysylltir â Swyddfeydd Gwladol yr Alban a Chymru wrth asesu'r bidiau perthnasol.

2.5 Mae'r prosbectws hwn yn dangos sut y gweithredir rownd gyntaf y Gronfa, bydd yn blaenoriaethu bidiau a fydd yn dangos y gellir dechrau buddsoddi neu ddarparu yn ymarferol yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod. Byddwn yn dal i adolygu'r dull hwn o weithredu yn y prosbectws ar gyfer rowndiau yn y dyfodol. Mae'r Gronfa ar agor i bob un ardal leol. Bydd faint o arian y bydd pob ardal yn ei dderbyn yn cael ei benderfynu ar sail cystadleuol er mwyn sicrhau gwerth am arian.

2.6 Bydd arian meithrin gallu'n cael ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol sydd â'r angen mwyaf o godi'r gwastad yn Lloegr, fel y nodir yn y mynegai a gyhoeddir gyda'r prosbectws. Bydd hefyd yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod yn yr Alban a Chymru, er mwyn helpu i adeiladu'u perthynas gyda Llywodraeth y DU at ddibenion y Gronfa. Bydd yr arian meithrin gallu hwn yn helpu i gefnogi'r awdurdodau lleol perthnasol i ddatblygu bidiau o ansawdd uchel ar gyfer y Gronfa a sicrhau bod y buddsoddi'n cael ei dargedu at ble mae ei angen mwyaf.

2.7 Mae'r mynegai'n seiliedig ar gyfuniad o fatricsau gynnwys yr angen am adferiad a thwf economaidd, yr angen i wella cysylltedd trafnidiaeth a'r angen am adfywiad.

2.8 Bydd manylion pellach sut y bydd y Gronfa'n gweithio o 2022-23 ar gael yn ddiweddarach eleni

## Gweithredu yng Ngogledd Iwerddon

2.9 Byddwn yn gweithredu ac yn darparu'r Gronfa yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon, sy'n talu i'r sylw gwahaniaethau mewn llywodraeth leol o gymharu â Lloegr, yr Alban a Chymru. Bydd arian meithrin gallu hefyd ar gael.

# Pennod 3

# Cymhwysedd

3.1Bydd pob ardal yn y DU yn gallu manteisio ar y Gronfa. Yn benodol, ym Mhrydain Fawr:

- Awdurdodau unedol (gan gynnwys cynghorau bwrdeistrefi metropolitanaidd) cynghorau bwrdeistref a chynghorau dosbarth Llundain mewn ardaloedd dwy haen yn Lloegr; ac mae awdurdodau unedol yn yr Alban a Chymru'n gymwys i gyflwyno bidiau yn unol â pharagraff 3.2;
- Mae cynghorau sir gyda phwerau trafnidiaeth, awdurdodau ar y cyd, awdurdodau maerol ar y cyd ac Awdurdod Llundain Fwyaf yn gymwys i gyflwyno un cynnig trafnidiaeth; ac mae awdurdodau unedol yn yr Alban a Chymru, ac awdurdodau unedol yn Lloegr gyda phwerau trafnidiaeth, yn gallu cyflwyno un cynnig ychwanegol y mae'n rhaid iddo fod ynghylch trafnidiaeth.

3.2 Rydym yn disgwyl y bydd Aelodau Seneddol, fel cynrychiolwyr wedi'u hethol yn ddemocrataidd yn eu hardaloedd, yn cefnogi un cynnig y maen nhw'n ei weld fel blaenoriaeth. Bydd nifer y bidiau y bydd awdurdodau lleol yn y categori cyntaf yn gallu eu cyflwyno yn dibynnu ar faint o Aelodau Seneddol sydd yn eu hardal. Felly, bydd awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno un cynnig am bob AS y mae'u hetholaethau'n gyfan gwbl o fewn eu ffiniau. Bydd pob awdurdod lleol yn gallu cyflwyno o leiaf un bid. Pan fydd etholaeth AS yn croesi ffiniau nifer o awdurdodau lleol, dylai un awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb fel y cynigiwr arweiniol a dylai ardaloedd lleol gydweithio i ddewis yr awdurdod hwnnw. Bydd y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn cysylltu â llywodraeth leol i drafod a fydd angen arweiniad pellach ar gyfer helpu i ddewis pwy ddylai fod y 'cynigwyr arweiniol' o dan yr amgylchiadau hynny.

3.3 Bydd y Gronfa'n canolbwyntio ar fuddsoddi mewn rhaglenni sydd angen hyd at £20 miliwn o arian. Fodd bynnag, yn eithriadol, gellid hefyd fuddsoddi mewn prosiectau trafnidiaeth o fwy o werth. Bydd cynigion sy'n werth mwy na £320 miliwn ond yn llai na £50 miliwn yn cael eu derbyn ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yn unig, megis cynlluniau ffyrdd, a gall unrhyw awdurdod lleol sy'n bidio eu cyflwyno. Bydd eu proses achos busnes yn cael ei ystyried yn fwy manwl a bydd yn rhaid i bob un sgorio'n uchel, yn gyffredinol. Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried cronni eu cyllid mewn un cynnig er mwyn rhoi gwell siawns i gynllun trafnidiaeth mwy gael ei dderbyn.

3.4 Dylai awdurdod perthnasol sy'n gyfrifol am ddarparu cynlluniau eu cymeradwyo. Er enghraifft, dylai cynigion ar gyfer trafnidiaeth sy'n cael eu cyflwyno gan gynghorau dosbarth gael eu cymeradwyo gan eu hawdurdod trafnidiaeth berthnasol.

3.5 Anogir awdurdodau sy'n bwriadu cydweithio gydag awdurdodau cyfagos ar gynlluniau traws ffiniol, gyflwyno cynigion ar y cyd ar draws eu hardaloedd ble bo'n briodol.

3.6 Dylai'r awdurdodau uchod ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid lleol ar draws yr ardal gyfan wrth ddatblygu eu bwriad i fuddsoddi o'r Gronfa. Gallai rhanddeiliaid a phartneriaid lleol perthnasol gynnwys busnesau lleol, darparwyr trafnidiaeth cyhoeddus, yr heddlu a'r gwasanaethau brys, cynrychiolwyr y gymuned, cynrychiolwyr amgylcheddol a phrifysgolion a Cholegau Addysg Bellach. Os yn berthnasol, dylai awdurdodau sy'n bwriadu bidio hefyd ystyried sut i gyrraedd rhanddeiliaid o gymunedau gwledig anoddach eu cyrraedd wrth ffurfio cynigion. Dylai'r bidiau dangos tystiolaeth o'r cysylltiad lleol cyffredinol fel rhan o'u hachos strategol trwy lythyrau gan randdeiliaid neu debyg.

3.7 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd Aelodau Seneddol wrth hyrwyddo diddordebau eu hetholwyr. Rydym yn disgwyl i awdurdodau sy'n bidio ymgynghori gydag Aelodau Seneddol lleol wrth baratoi eu cynnig, er nad oes raid cael cefnogaeth yr Aelod Seneddol lleol i gais lwyddo. Gall ASau wneud gwaith positif wrth flaenoriaethu cynigion a helpu i feithrin consensws lleol. Wrth ystyried y pwysau i'w rhoi ar gynigion, y disgwyl yw y bydd Aelod Seneddol yn cefnogi un cynnig y mae'n ei weld fel blaenoriaeth ac y bydd unrhyw gynnig yn gallu cael cefnogaeth a blaenoriaeth oddi wrth lawer o ASau a rhanddeiliaid lleol. Ond efallai y bydd Aelodau Seneddol eisiau cefnogi unrhyw un neu'r cyfan o'r cynlluniau a fyddai o fudd i'w etholaethau yn y ffordd arferol.

3.8 Rydym yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol sy'n cyflwyno nifer o gynigion yn eu taenu'n deg o fewn ffiniau'r awdurdod ac ar draws y cyfan o'u hetholaethau, gan dargedu pocedi o amddifadedd fel bo'n briodol.

3.9 Gweithredir yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon. Bydd Llywodraeth y DU yn derbyn cynigion ar y lefel fwyaf leol, oddi wrth amrywiaeth o ymgeiswyr lleol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i fusnesau, sefydliadau y sector gwirfoddol a chymunedol, cynghorau dosbarth, Prif Weithredwr Gogledd Iwerddon a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

# Pennod 4

# Themâu buddsoddi ar gyfer y rownd ariannu gyntaf yn 2021-22

4.1 Bydd rownd gyntaf y Gronfa'n canolbwyntio ar dair thema: prosiectau trafnidiaeth llai sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ardaloedd lleol; adfywio canol trefi a'r stryd fawr; a chefnogi  cynnal ac ymestyn portffolio'r DU o asedau diwylliannol a threftadaeth sy'n arwain y byd, yn benodol:

- **Buddsoddiadau trafnidiaeth** gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) drafnidiaeth cyhoeddus, teithio llesol, trwsio pontydd, lonydd blaenoriaeth bws, gwella ffyrdd lleol, chynnal a chadw strwythurau mawr a gwelliannau hygyrchedd. Rydym yn gofyn am gynigion ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth lleol bach a chanolig ac yn eithrio rhai mwy er mwyn lleihau gollyngiadau carbon, gwella ansawdd aer, torri lawr ar dagfeydd, cefnogi twf economaidd a gwella profiad defnyddwyr trafnidiaeth.
- **Buddsoddi mewn adfywio canol trefi,** adeiladu ar fframwaith y Gronfa Drefi i uwchraddio adeiladau hyll a seilwaith sydd wedi dyddio, caffael ac adfywio safleoedd tir llwyd, buddsoddi mewn seilwaith cymunedol diogel a lleihau troseddu a dod â gwasanaethau cyhoeddus a gofodau cymunedol diogel i ganol trefi a dinasoedd.
- **Buddsoddi diwylliannol** cynnal, adfywio neu gael defnydd creadigol arall o amgueddfeydd, orielau, atyniadau ymwelwyr (a mannau gwyrdd cysylltiedig) ac asedau treftadaeth yn ogystal â chreu gofodau newydd ym mherchnogaeth y gymuned er mwyn cefnogi'r celfyddydau a gwasanaethu fel mannau diwylliannol.

4.2 Dylai'r cynigion ar gyfer buddsoddi ganolbwyntio ar gefnogi prosiectau â blaenoriaeth uchel a fydd yn cael effaith weladwy ar ardaloedd lleol, gan gydnabod y bydd yr hyn sy'n cael ei alw'n fuddsoddiad blaenoriaeth yn amrywio yn ôl awdurdodau lleol ac ardaloedd gwahanol, gan gynnwys ardaloedd gwledig y DU.

4.3  Mae Sero Net ac uchelgeisiau amgylcheddol[1] ehangach y Llywodraeth hon yn rhan allweddol o'n hymrwymiad i adeiladu'n ôl yn well – ac mae hynny'n arbennig o bwysig mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf a seilwaith, sydd yn effeithio'n weladwy ar ein hamgylchoedd. Dylid paratoi prosiectau fel eu bod yn cefnogi nodau Sero Net: er enghraifft, wedi'u seilio ar ymarfer gorau carbon isel neu sero; mabwysiadu a chefnogi technoleg arloesol, glân a / neu cefnogi'r twf mewn sgiliau gwyrdd a chadwyni cyflenwi cynaliadwy. Os yn briodol, gallai cynigion hefyd ceisio dangos cydymffurfiad â'r Manylebion Ar Gael I'r Cyhoedd megis PAS 2080 a PAS 2035,

1 https://www.gov.uk/government/publications/25-year-environment-plan

Dylai cynigion hefyd ystyried sut y gallai prosiectau weithio gyda'r amgylchedd naturiol i gyrraedd amcanion prosiectau – gan ystyried, o leiaf, effaith y prosiect ar asedau naturiol a natur ein gwlad, yn ogystal â pha mor wydn yw prosiect cyfalaf a seilwaith yn erbyn peryglon posibl megis llifogydd.[2]

## Trafnidiaeth

4.4 Gallai buddsoddi mewn rhwydweithiau trafnidiaeth lleol adfywio economïau lleol trwy hybu twf, gwella cysylltedd a gwneud lleoedd yn iachach, yn wyrddach ac yn fwy deniadol i fyw a gweithio ynddyn nhw. Mae bron iawn pob taith leol yn dechrau ac yn gorffen ar rwydweithiau trafnidiaeth lleol, felly mae buddsoddi'n gallu gwneud gwahaniaeth real, diriaethol i drigolion, busnesau a chymunedau lleol. Mae gan brosiectau trafnidiaeth lleol ran ganolog mewn gwella lleoedd a chodi'r gwastad. Gallai hynny fod yn uwchraddio seilwaith bysiau a beicio er gallu cyrraedd mannau gwaith yn haws tra'n cefnogi aer glanach a theithio gwyrddach, iachach, targedu gwella ffyrdd mewn ardaloedd lle mae tagfeydd a thrwsio pontydd er mwyn sicrhau nad yw cymunedau'n cael eu hynysu o wasanaethau allweddol.

4.5 O gofio fod cynigion gwella trafnidiaeth lleol sydd wedi'u paratoi'n dda yn dangos, fel arfer, werth da am arian yn ôl y meini prawf asesu ac o gael eu darparu'n effeithiol. Gallai prosiectau sy'n cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo o dan y thema fuddsoddi hon gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Fuddsoddiadau mewn darpariaeth newydd neu sy'n bodoli eisoes ar gyfer beicio.[3]
- Gwella'r flaenoriaeth ar gyfer gwasanaethau bysiau lleol (e.e. lonydd blaenoriaeth bysiau neu flaenoriaeth signalau ar gyffyrdd).
- Gwella adnoddau trafnidiaeth cyhoeddus, megis arosfannau a gorsafoedd bysiau.
- Ei gwneud yn haws i bobl ag anableddau ddefnyddio'r rhwydweithiau trafnidiaeth lleol.
- Gwella ac uwchraddio'r rhwydweithiau ffyrdd lleol (e.e. ffyrdd osgoi a gwella cyffyrdd)[4].
- Gwaith cynnal a chadw strwythurol i ffyrdd lleol, gan gynnwys pontydd.
- Cynigion amrywiol yn cyfuno dau neu fwy o ddulliau i wella trafnidiaeth.

4.6 Derbynnir cynigion ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth mwy, yn eithriadol, megis buddsoddi yn y rhwydwaith ffyrdd. Dylai cynigion o'r fath fod rhwng £20 miliwn ac £50 miliwn a gall unrhyw awdurdod lleol sy'n bidio eu cyflwyno. Fodd bynnag, bydd y broses achos busnes yn fanylach a bydd yn rhaid i'r cynlluniau hyn sgorio'n uchel fel arfer. Efallai y gallai awdurdodau lleol ystyried cronni eu cyllid er mwyn gwella'r siawns o gael cymeradwyaeth ar gyfer cynllun trafnidiaeth mwy.

---

2 https://www.gov.uk/government/publications/25-year-environment-plan

3 Dylai pob cynnig beicio ddilyn canllawiau dylunio beicio'r Llywodraeth sy'n dangos y safonau gofynnol i alluogi'r cynlluniau i dderbyn cyllid.

4 Atgoffir ardaloedd lleol fod Llywodraeth y DU'n disgwyl y bydd pob prosiect ffordd lleol yn Lloegr sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, yn darparu neu'n gwella'r seilwaith beicio a cherdded (oni bai y dangosir nad oes ond ychydig neu ddim angen gwneud felly). Disgwylir hefyd y bydd y rhain naill ai'n cefnogi'r mesurau blaenoriaeth bws neu dylai bidiau am gyllid egluro pam na fyddai'n gwneud hynny'n angenrheidiol nac yn briodol.

## Astudiaeth Achos; Lincoln Transport Hub

Buddsoddodd y Llywodraeth £11 miliwn o’r Gronfa Codi’r Gwastad yn y prosiect hwn sy’n cael ei arwain gan Gyngor Dinas Lincoln. Llwyddodd y cynllun i adfywio a gweddnewid canol y ddinas yn sylweddol. Mae’n dod ynghyd yr orsaf fysiau mwyaf diweddar gydag arosfannau, gwella’r maes cyhoeddus gan gynnwys plaza newydd i gerddwyr yn unig, maes parcio a mannau mân-werthu. Mae’r prosiect hefyd wedi gwella gorsaf reilffordd Lincoln Central.

Roedd y prosiect hwb trafnidiaeth yn rhan allweddol o’r strategaeth twf lleol yn Lincoln. Mae wedi creu adwy haws ei defnyddio a mwy deniadol i’r ddinas. Mae hynny wedi sbarduno adfywiad ehangach yng nghanol y ddinas ac wedi helpu i ddatgloi datblygiadau mân-werthu, masnachol a thrigiannol ehangach yn y ddinas. Daeth y gwaith adeiladu i ben yn 2018 ac erbyn hyn mae’r cynllun yn gwbl weithredol.

## Astudiaeth Achos: Thanet Parkway

Wedi’i ariannu gyda £12 miliwn o’r Getting Building Fund, gorsaf reilffordd newydd ger Cliffsend yn Thanet, Dwyrain Caint yw Thanet Parkway sydd â dau blatfform 12 cerbyd ar gyfer prif wasanaethau trên a’r rhai Cyflymder Uchel presennol. Mae’r fynedfa iddo trwy risiau a lifft o lwybr tanddaearol Fictorianaidd sydd wedi'i adnewyddu, a fydd hefyd yn gwella’r maes cyhoeddus a hawl tramwy cyhoeddus sy'n bodoli eisoes. Bydd yr orsaf yn cysylltu â’r pentref trwy lwybr troed / lwybr beicio newydd a chyda mynediad uniongyrchol i gerbydau o’r A299 (rhan o’r Prif Rwydwaith Ffyrdd) at ei maes parcio gyda lle i 299 o gerbydau.

Nod y prosiect yw defnyddio gwelliannau mewn trafnidiaeth i sbarduno adfywio, i annog creu swyddi ac adeiladu tai yn yr ardal hanesyddol economaidd ddifreintiedig hon.  Bydd yr orsaf yn creu hyd at 800 o swyddi newydd ac yn cyflymu darparu hyd at 3,200 o gartrefi yn ogystal â chefnogi’r 17,410 o gartrefi yng Nghynllun Lleol Thanet. Mae’r prosiect wedi bod yn flaenoriaeth economaidd ers peth amser ac mae’i bwysigrwydd erbyn hyn wedi’i amlygu gan effeithiau economaidd dinistriol Covid-19.

# Adfywio

4.7 Mae canolfannau trefi yn rhan hanfodol o’n cymunedau a’n heconomïau lleol, yn ganolbwynt i'r fasnach fân-werthu a lletygarwch ac yn ganolfan wirioneddol ar gyfer cymunedau lleol. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ymddygiad cwsmeriaid wedi newid a bod y newid hwnnw’n ei gwneud yn anoddach i fân-werthwyr yn ein canolfannau trefi ac ar y stryd fawr, rhywbeth sy’n dod yn fwyfwy amlwg gydag effaith Covid 19.   Hefyd, er bod rhai ardaloedd wedi elwa o raglenni fel y Gronfa Drefi, nid yw rhai mannu fel y trefi llai wedi gallu cael y buddsoddiad hwn.

4.8 Yng Nghyllideb 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ‘Ein Cynlluniau ar gyfer y Stryd Fawr’, oedd yn flaengyrch i nifer o fentrau gan gynnwys y Gronfa Drefi, i adnewyddu ac ail ffurfio canolfannau trefi a’r stryd fawr fel eu bod yn edrych ac yn teimlo'n well ac yn gallu ffynnu yn y tymor hir.  Mae colofn adfywio’r Gronfa Codi’r Gwastad yn gobeithio adeiladu ar yr athroniaeth hon ac ar y buddsoddiadau a wnaed hyd yma trwy’r Gronfa Drefi.

Rydyn ni eisiau helpu cymunedau i drawsnewid safleoedd sydd wedi adfeilio, sy’n wag neu sy’n cael eu defnyddio’n wael, i fod yn ganolfannau masnachol a chymunedol bywiog y gall pobl leol fod yn falch ohonyn nhw.

4.9 Gallai prosiectau a gyflwynir i’w cymeradwyo o dan y thema buddsoddi hon gynnwys:

- Adfywio safleoedd hamdden a mân-werthu allweddol a gwella eu diogeledd er mwyn annog busnesau newydd a gwasanaethau cyhoeddus i leoli yno.
- Cael gwared ar adeiladau wedi adfeilio a rhai eraill, hyll, i wneud lle i ddatblygiadau newydd.
- Caffael ac adfer safleoedd wedi’u gadael, neu dir llwyd, ar gyfer defnydd masnachol a defnydd trigiannol newydd.
- Gwella tir y cyhoedd, gan gynnwys y stryd fawr, parciau a mannau gwyrdd, dylunio allan gyfleoedd ar gyfer troseddu ac ymddygiad gwrth gymdeithasol.
- Creu cysylltedd gwell rhwng ac o fewn safleoedd mân-werthu a hamdden allweddol.
- Cyflwyno ‘Bargeinion Tref’ i drefi unigol neu i grwpiau o drefi llai nad oedd wedi derbyn buddsoddiad gan y Gronfa Drefi.

## Astudiaeth Achos; Canol Tref Strabane

Gydag arian trwy’r rhalglen ‘City Deals’, bydd canol tref Strabane yn swydd Deri yn cael ei ail ffurfio a’i ail fywiocau drwy greu seilwaith ffisegol newydd o gwmpas ei Basn Camlas hanesyddol.

Bydd y prosiect yn golygu y bydd yn haws i drigolion gyrraedd gwasanaethau allweddol, sy'n cynnwys adleoli campws Coleg Rhanbarthol y Gogledd-orllewin, creu unedau bychan deor busnesau, canolfan gofal iechyd cychwynnol, canolfan hamdden a gwell cysylltiadau gyda thrafnidiaeth cyhoeddus i adfywio Strabane. Bydd cydleoliad unigryw gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ar safle strategol allweddol yn rhoi gwell cysylltedd ac o fanteision economaidd, iechyd a chymdeithasol i bobl yr ardal,

### Astudiaeth Achos; The Bath Quays South Rhan 1a

Yn cael ei ariannu gan £2 filiwn o'r Getting Building Fund, mae Rhan 1 Bath Quays South yn cynnwys darparu seilwaith hanfodol i alluogi gwaith i gael safle Quays South yn barod ar gyfer datblygu. Nod y prosiect yw dod â'r safle strategol hon, sydd wedi'i hanwybyddu, yn ôl i ddefnydd, cael gwared ar yr hyn oedd yn rhwystr i ddatblygu a galluogi darparu stoc o swyddfeydd modern sydd fawr eu hangen i greu Ardal Busnes Ganolog o'r newydd.

Bydd y gwaith galluogi a fydd yn cael ei ddarparu trwy'r prosiect hwn yn hwyluso cwblhau cynllun rheoli llifogydd, darparu maes cyhoeddus, gwella mynediad a'r lanfa o'r bont, gwaith cadwraeth ar Newark Works, rhestredig Gradd II, i greu 4,500 metr sgwâr o le gweithio creadigol, 5,000 metr sgwâr o swyddfeydd masnachol Graddfa A a hyd at 65 o unedau trigiannol newydd ar lan yr afon.

## Diwylliant a Threftadaeth

4.10 Gallai buddsoddi mewn asedau diwylliannol adfywio mannau, gan arwain at ganlyniadau economaidd a chymdeithasol positif yn lleol. Mae'n gallu helpu cadw a chynyddu gweithlu hynod sgilgar, yn denu ymwelwyr i roi hwb i fusnesau lleol yr ardal ac yn rhoi cyfloedd i bobl a chymunedau gysylltu gyda lleoedd. Hefyd, gallai cefnogi datblygu perthynas mwy positif rhwng pobl a mannau fod o les i iechyd meddwl a chorfforol. Yn fyr, mae diwylliant a threftadaeth yn bethau sy'n dod â phobl o bob cwr o'r wlad at ei gilydd ac yn cryfhau cymunedau.

4.11 Gall syniad o le fod yn ffactor pwysig sy'n 'tynnu' buddsoddiadau a phenderfyniadau ynghylch ble i leoli busnesau. Mae'n gallu dylanwadu ar allu i ddenu talent - yn enwedig pobl ifanc – a chadw gweithwyr. Mae gan lawer o drefi eisoes synnwyr cryf o le ac o dreftadaeth, ac mae'n nhw'n elwa ar eu hasedau diwylliannol a threfol, yn uniongyrchol, o arian twristiaeth ac ymwelwyr, ac yn anuniongyrchol drwy ysbrydoli balchder lleol a chydlyniad cymdeithasol, gan wneud y mannau hynny'n lleoedd deniadol i fyw a gweithio ynddyn nhw. Yn ogystal â'r trefi, mae gan ardaloedd gwledig yn aml glytwaith gyfoethog o asedau diwylliannol a threftadaeth lleol.

4.12 Nid yw cadw treftadaeth yn cael ei gyfyngu i ddenu twristiaeth yn unig, mae llawer o ganol trefi a dinasoedd led led y DU yn hanesyddol ac yn hardd ac mae sicrhau eu bod yn parhau felly yn hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol i'r busnesau sydd ynddyn nhw, gan gydweithio gyda thema adfywio a buddsoddi mewn canolfannau trefi'r Gronfa hon.

4.13 Dylai darpar fuddsoddiadau fod yn cyd-fynd â, yn hytrach na dyblygu na chystadlu gyda'r arian sydd eisoes yn darparu neu sydd ar fin darparu yn eu hardal (megis trwy Gronfa Treftadaeth y Stryd Fawr). Os yn briodol, bydd Llywodraeth y DU yn gofyn am gyngor ynghylch alinio gyda darpariaeth bresennol gan y gweinyddiaethau datganoledig fel rhan o asesiad o'r bidiau yn eu hardaloedd daearyddol sydd ar y rhestr fer. Bydd ceisiadau sydd ag agwedd treftadaeth a diwylliannol ac sy'n cyfuno gyda cheisiadau yn cael llawer iawn mwy o effaith yn gyffredinol. Dylai buddsoddiadau mewn asedau diwylliannol fod yn cael eu gyrru gan angen sensitif i le neu i gyfle a bod â deilliannau clir sy'n cyd-fynd a gweledigaeth mannau ar gyfer datblygiad economaidd a chymdeithasol yn seiliedig ar le yn ogystal ag

iechyd a lles pobl yr ardal. Gallai prosiectau a gyflwynir o dan y thema buddsoddi hon gynnwys:

- Uwchraddio a chreu mannau diwylliannol a chreadigol newydd, gan gynnwys adnoddau chwaraeon ac athletau, amgueddfeydd, mannau'r celfyddydau, theatrau, llyfrgelloedd, adnoddau ffilm, tirnodau neu adeiladu hanesyddol amlwg, parciau neu erddi.
- Canolfannau, lleoliadau neu asedau cymdeithasol, newydd, wedi'u huwchraddio neu sy'n cael eu hamddiffyn (a mannau gwyrdd cysylltiedig).
- Caffael ac adnewyddu safleoedd diwylliannol a threftadaeth allweddol, gan gynnwys gwestai ac adeiladau hanesyddol.

### Astudiaeth Achos; Castell Inverness

Gyda buddsoddiad o £3 miliwn gan Gyngor yr Ucheldir, bydd datblygu Castell Inverness a'r ardal gyfagos yn ychwanegu at yr hyn sydd gan yr ardal i'w gynnig i ymwelwyr drwy greu atyniad sy'n dathlu ysbryd yr Ucheldir yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, gan gynnwys ei greadigrwydd, ei lesiant, diwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd naturiol. Mae'r weledigaeth ar gyfer y prosiect yn cynnwys orielau newydd i ddod ag arddangosfeydd cenedlaethol a rhyngwladol ac arddangosfeydd o amgueddfeydd i'r Ucheldir, gan ddathlu ei ddiwylliant a'i dreftadaeth yn ogystal â'i siopau, bwytai, bariau a chaffis a hyrwyddo'r gorau o grefftau a chynnyrch yr Ucheldir. Hefyd, bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys datblygu mannau cyhoeddus yn rhodfa'r castell ac efallai westy newydd ger y datblygiad i roi hwb pellach i'r hyn sydd gan Inverness i'w gynnig i dwristiaeth ac i helpu i ddenu ymwelwyr i'r ardal.

### Astudiaeth Achos: Parth Gweithredu Treftadaeth Stoke-on-Trent

Yn cael ei ariannu gan Historic England, cynllun pum mlynedd yn ardal Longton yw Parth Gweithredu Treftadaeth Stoke-on-Trent, un o chwe thref hanesyddol yn y ddinas sydd wedi dioddef ar ôl y dirywiad hanesyddol yn ei diwydiant crochenwaith, gyda thrigolion yn symud i'r maestrefi a diwydiannau i'r parciau busnes a gwanhau canolfan fân-werthu'r dref.

Gan weithio'n agos gyda chyrff cymunedol, gan gynnwys y Potteries Heritage Society, Longton Traders, Staffordshire Film Archive a Phrifysgolion Keele a swydd Stafford, mae'r Gymdeithas Dreftadaeth y gobeithio helpu perchnogion eiddo i droi'r lleoedd uwchben siopau'n fflatiau a denu pobl yn ôl i ganol y dref. Yr un pryd, mae wedi cefnogi troi odynau poteli a ffatrïoedd treftadaeth yn stiwdios / mannau mentergarwch ar gyfer y diwydiant crochenwaith sy'n adfywio ac wedi annog rhaglen o ddylunio a gwaith ar asedau hanesyddol ym mherchnogaeth y cyngor sy'n cynnwys safle Ffatri Spode, Neuaddd y Dref Stoke, Neuadd y Dref Longton, Neuadd y Dref Tunstall, Amgueddfa ac Oriel Gelf 'Spitfire at the Potteries' a Mawsolëwm Trentham.

# Pennod 5

## Dulliau o ariannu ac o dargedu

5.1 Cronfa gystadleuol yw'r Gronfa Codi'r Gwastad, gydag arian yn cael ei rannu i bob cwr o'r DU i brosiectau oedd wedi llwyddo i gael eu dewis. Bydd y gronfa'n neilltuo o leiaf £800 miliwn i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn ystod y pedair blynedd o 2021-2022 i 2024-2025. Yn ystod y rownd gyntaf o ariannu, bydd o leiaf 9% o holl ddyraniadau'r DU yn cael eu neilltuo ar gyfer yr Alban, 5% i Gymru a 3% i Ogledd Iwerddon.

### Gweithredu yn Lloegr, yr Alban a Chymru

5.2 Yn y gystadleuaeth, bydd arian yn cael ei dargedu ar y mannau mwyaf anghenus yn Lloegr, yr Alban a Chymru, yn ôl mynegai sy'n talu sylw i'w nodweddion canlynol:

- yr angen am adferiad a thwf economaidd.
- yr angen am well cysylltiadau trafnidiaeth; a
- yr angen am adfywio.

5.3 Drwy ddefnyddio'r mynegai hwn, gosodwyd mannau yn y categorïau 1, 2 neu 3, gydag 1 y mwyaf anghenus. Bydd y bandiau hyn yn rhan o'n meini prawf ar gyfer asesu bidiau, fel sy'n cael ei ddangos ym mharagraff 7.1. Er y rhoddir blaenoriaeth i fidiau o ardaloedd â blaenoriaeth uwch, nid yw'r bandiau'n dangos meini prawf cymhwysedd, na faint o fidiau y bydd lle'n gallu eu cyflwyno. Bydd bidiau o gategorïau 2 a 3 yn dal i gael eu hystyried ar gyfer eu hariannu ar sail darpariaeth, gwerth am arian a ffit strategol, a gallai bidiau fel hyn o ansawdd eithriadol ddal i fod yn llwyddiannus.

5.4 Mae rhestr o gategorïau pob lle wedi cael ei gyhoeddi gyda'r ddogfen hon a gellir ei dilyn ar y ddolen hon. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion cyn bo hir ynghylch y fethodoleg a fydd yn cael ei defnyddio i gyfrifo'r mynegai.

5.5 Yn y rownd gyntaf o ariannu, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau a fydd yn gallu dangos buddsoddiad neu'n dechrau darparu'n ymarferol ym mlwyddyn 2021-22. Bydd yna gyfleoedd yn nes ymlaen i gyflwyno bidiau mewn rowndiau canlynol. Byddwn yn disgwyl y bydd yr holl arian a fydd wedi'i ddarparu trwy'r Gronfa wedi'i wario erbyn 31 Mawrth 2024 ac, yn eithriadol, yn 2024-25 ar gyfer cynlluniau mwy.

5.6 Nid yw Cynghorau Sir, Awdurdodau Cyfun nag Awdurdod Llundain Fwyaf wedi'u cynnwys yn y mynegai. Bydd cynigion trafnidiaeth o'r awdurdodau hyn yn cael eu hasesu o ran nodweddion y meini prawf lleoedd yn yr awdurdodau rheng is neu reng sengl lle mae'r cynnig wedi'i leoli.

## Gweithredu yng Ngogledd Iwerddon

5.7 Gweithredir yn wahanol yng Ngogledd Iwerddon. Bydd Llywodraeth y DU yn derbyn cynigion ar y lefel fwyaf leol, oddi wrth amrywiaeth o ymgeiswyr lleol, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i fusnesau, sefydliadau y sector gwirfoddol a chymunedol, cynghorau dosbarth, Prif Weithredwr Gogledd Iwerddon a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

# Pennod 6

# **Paratoi Cynigion**

6.1 Dylai ardaloedd lleol ystyried eu hanghenion seilwaith ar gyfer trafnidiaeth, adfywio a buddsoddi diwylliannol yn holistig wrth baratoi eu cynigion. Dylai ceisiadau am arian ddangos yn glir sut y byddai'r buddsoddiadau arfaethedig yn cefnogi strategaethau lleol perthnasol a'u hamcanion ar gyfer gwella seilwaith, hyrwyddo twf, gwella'r amgylchedd naturiol a gwneud eu hardaloedd yn lleoedd mwy deniadol i fyw a gweithio ynddyn nhw. Dylai ardaloedd hefyd ddangos pam y byddai'r buddsoddiad neu'r set o fuddsoddiadau arfaethedig yn dangos y blaenoriaethau lleol gyda'r gwerth uchaf.

6.2 Gallai pob cynnig a gyflwynir gan sefydliadau lleol fod yn gynnig ar gyfer prosiect unigol neu yn becyn o gynigion yn cynnwys nifer o brosiectau. Gallai cynigion ar gyfer prosiect unigol neu becyn o gynigion ofyn am hyd at £20 miliwn o arian, heblaw am achosion eithriadol sy'n cael eu trafod ym mharagraff 3.4.  Mae'n rhaid i becyn o gynigion egluro'n glir sut y bydd eu gwahanol elfennau'n cyd-fynd â'i gilydd a'u bod yn cynrychioli set gydlynol o ymyriadau. Gallai'r rhain gynnwys cymysgedd o brosiectau o dair thema fuddsoddi'r Gronfa ond ni ddylai unrhyw un cynnig gynnwys nifer o fuddsoddiadau digyswllt.

6.3 Gallai awdurdodau lleol gyflwyno cynigion ar y cyd. Bydd uchafswm  y cynigion ar y cyd yn cael ei benderfynu wrth adio'r capiau £20 miliwn unigol sydd gan pob awdurdod sy'n gallu cynnig. Bydd cynigon ar y cyd yn cyfrif tuag at y nifer fwyaf o gynigion y gall pob awdurdod lleol eu cyflwyno. Gallai cynigon ar y cyd gynnwys cyfuniad o ymyriadau o fewn siroedd, rhanbarthau ac ar draws ffiniau. Fodd bynnag, rhaid iddyn nhw beidio â bod yn becyn o ymyriadau digyswllt – fel rhan o'r achos strategol, mae'n rhaid i gynigwyr dangos fod y cynigion ar y cyd yn gynigion ar gyfer buddsoddi'n gydlynol ac yn gyson. Dylai pob elfen o gynnig ar y cyd sy'n cael eu darparu ar y cyd fod yn sylfaenol i'r cynnig ar y cyd yn ei gyfanrwydd a bod yn gallu datgloi unrhyw elfennau o'r cynnig nad ydyn nhw'n cael eu darparu ar y cyd.

6.4 Yn achos pecyn o gynigion yn cynnwys mwy nag un prosiect, dylai'r cynigion fod mewn dwy ran, gan gynnwys y canlynol:

- Rhan 1 (ar gyfer y cyfan o'r cynnig): crynodeb o gynigion y prosiect o fewn y cynnig (hyd at uchafswm o dri phrosiect fesul bid); ac achos ariannol cyffredinol;
- Rhan II (ar gyfer pob prosiect unigol): daw'r brif thema o dan; crynodeb a dolen strategol i'r cynnig cyflawn; gwybodaeth ynghylch ymarferoldeb gweithredu (rheoli, risg, arian a buddion)

6.5 I ymgeisio am fuddsoddiad o rownd gyntaf y Gronfa Codi'r Gwastad, mae'n rhaid i sefydliadau lleol cymwys gyflwyno eu cynigion i'r Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn hanner dydd ar Ddydd Gwener 18 Mehefin 2021.  Bydd y rhan fwyaf o gynigion trafnidiaeth yn cael eu hasesu gan yr Adran Drafnidiaeth. Gellir cyflwyno cynigion hefyd

cyn y dyddiad hwn. Disgwylir y bydd Llywodraeth y DU'n penderfynu ar gyfer y rownd hon o ariannu erbyn yr hydref 2021. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau pellach cyn bo hir ynghylch sut mae lleoedd yn gallu cyflwyno cynigion.

6.6 Efallai y bydd awdurdodau'n dymuno ystyried cyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau piblinellau costus y maen nhw eisoes wedi'u datblygu ond heb eu hariannu. Yn benodol, mae'r Gronfa Codi'r Gwastad yn disodli'r rhaglen mannau cyfyng lleol £150 miliwn yn Lloegr, ac mae ardaloedd lleol yn Lloegr yn cael eu hannog i flaenoriaethu cyflwyno y cynigion o ansawdd uchel sydd wedi'u datblygu ar gyfer y rhaglen hon, ble maen nhw'n bodoli, ar gyfer rownd gyntaf y Gronfa, yn ogystal ag ar gyfer Cynlluniau Seilwaith Beicio a Cherdded Lleol.

6.7 Mae gofyn i'r Llywodraeth gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sydd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Er mwyn sicrhau ein bod yn talu sylw i effaith posibl yr ariannu ar unigolion gyda nodweddion gwarchodedig, byddwn yn rhoi ystyriaeth briodol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gymryd y penderfyniadau allweddol ac yn gofyn am wybodaeth oddi wrth ymgeiswyr ac awdurdodau arweiniol ar gyfer y broses hon. Er nad yw hyn yn rhan o asesiad y cynnnig, wrth gymryd y penderfyniadau terfynol, bydd y Llywodraeth yn talu sylw dyledus i'w Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae gofyn i bob awdurdod lleol ystyried effeithiau cydraddoldeb eu cynigion o dan Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

6.8 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd nid yn unig o gyfarfod â'n goblygiadau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ond hefyd i dalu'r sylw dyledus i'r ystyriaethau ychwanegol o gydraddoldeb sy'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

6.9 Rhaid i bob ymgeisydd hefyd ystyried sut y bydden nhw'n darparu yn unol â rheoli sybsidi (neu Gymorth Gwladol yng Ngogledd Iwerddon) yn ôl canllawiau'r Llywodraeth [https://www.gov.uk/government/consultations/subsidy-control-designing-a-new-approach-for-the-uk], yn ogystal â'r holl oblygiadau cyfreithiol perthnasol eraill megis caffael. Bydd hwn yn cael ei brofi fel rhan o'r broses werthuso ac yn cael ei fonitro ar ôl hynny.

6.10 Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb i gefnogi pobl, busnesau a chymunedau ledled y cyfan o'r Deyrnas Unedig, yn enwedig yng nghyd-destun adfer ar ôl Covid-19. Trwy Deddf y Farchnad Mewnol y DU 2020, mae Llywodraeth y DU yn gallu buddsoddi mewn cefnogi cymunedau ledled y DU.

6.11 Mae'n rhaid i bob cynnig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon fod o fewn sgôp y pwerau cymorth ariannol yn Neddf y Farchnad Fewnol y DU 2020. Mae manylion y Ddeddf a'r nodiadau egluro i'w canfod ar legislation.gov.uk neu yn y cyfeiriad gwefan canlynol: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2020/27/contents. Ble bo'n berthnasol gallwch ddefnyddio'r Ddeddf Datblygu (1982) os yn berthnasol.

6.12 Darperir canllawiau a thempledi pellach ar gyfer cyflwyno cynigion, gan gynnwys pecyn cynigion, i'r awdurdodau lleol ychydig ar ôl y Gyllideb.

## Gofynion darparu ac ariannu

6.13 Unwaith y penderfynir ariannu cynllun, sefydliadau lleol perthnasol fydd yn gyfrifol am ei darparu.  Ni fydd rhagor o gyfraniadau ar gael o'r Gronfa os bydd y costau'n fwy na'r swm a gytunwyd.

6.14 Ar gyfer rowndiau'r dyfodol, bydd y paramedrau sydd yn y prosbectws hwn yn dal i gael eu hadolygu, gan gynnwys eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth wrth weithredu a newidiadau ehangach ym mholisi'r llywodraeth.

6.15 Dim ond un cynnig llwyddiannus fydd awdurdodau lleol yn ei gael ar gyfer eu nifer dynodedig o gynigion dros gylch bywyd y Gronfa.  Anogir awdurdodau lleol, felly, i ystyried a yw'r bidiau y mae'n nhw eisiau eu cyflwyno yn y rownd gyntaf yn adlewyrchu blaenoriaethau eu hardaloedd, neu a ddylen nhw ddisgwyl tan rowndiau diweddarach er mwyn cael mwy o amser i ystyried datblygu eu cynigion.

# Pennod 7

# **Meini Prawf Asesu**

7.1 Bydd y broses asesu'n canolbwyntio ar y meini prawf canlynol:

- **Nodweddion y lle** – bydd pob awdurdod lleol yn cael eu rhoi yng nghategorïau 1, 2 neu 3 yn seiliedig ar ein metrigau asesu, gyda chategori 1 yn dangos y lefel uchaf o anghenion a nodwyd.
- **Ymarferoldeb gwireddu** – bydd hyn yn cael ei seilio ar arian atodol, achosion rheoli a masnachol, gyda chynigion yn gallu dangos buddsoddiad neu a fydd yn dechrau darparu ar y ddaear ym mlwyddyn ariannol 2021-2022 yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer y rownd gyntaf o ariannu.
- **Ffit strategol gyda blaenoriaethau lleol a rhai'r Gronfa** – dylid talu sylw i hyn wrth gyflwyno'r achos strategol a dylai gynnwys cefnogaeth gan randdeiliaid.
- **Gwerth am arian** – dylid cyflwyno achos economaidd i egluro buddion y cynnig a sut y mae'n cynnig gwerth am arian.

## Nodweddion y lle

7.2 Bydd buddsoddiadau'n cael eu blaenoriaethau ar gyfer ardaloedd sydd fwyaf o angen codi'r gwastad, gyda phob Awdurdod Lleol yn cael eu gosod yn y categori 1, 2 neu 3 yn erbyn y maen prawf hwn, lle mae categori 1 yn dangos y lefel uchaf o angen a nodwyd.  Mae'r metrigau a ddefnyddir i benderfynu ym mha gategori y bydd lle'n cael ei osod yn cynnwys yr angen am adfywiad economaidd, adfywio a gwella cysylltedd.  Gellir ystyried hefyd lefelau diweddar ac sydd wedi'i ymrwymo o fuddsoddiad y Llywodraeth fel rhan o'n hasesiad o angen ardal am arian, gan gynnwys buddsoddiad gan unrhyw un o'r gweinyddiaethau datganoledig.

## Ymarferoldeb gwireddu

7.3 Bydd pob bid yn cael ei asesu ar gyfer cynlluniau darparu a chaffael, strwythurau rheoli a chostau clir a chadarn ar gyfer y prosiect.   Dylid egluro'n glir unrhyw risgiau ynghylch darparu a chyflwyno gweithredoedd lliniaru addas.  Dylai cynigion gyda sawl prosiect egluro'n glir sut y gellid lleihau eu costau os bydd gofyn.  Er mwyn sicrhau fod prosiectau'n cael eu darparu'n ôl y rhaglen a'r gyllideb, rydyn ni'n annog y dylai cynigion gynnwys cyfraniad ariannol lleol o 10% o leiaf o gyfanswm y costau. Disgwylir cyfraniad gan randdeiliaid yn y sector preifat, megis datblygwyr, os bydd disgwyl iddyn nhw elwa o brosiect penodol.

## Gweddu'n strategol gyda blaenoriaethau lleol

7.4 Dylai cynigion ddangos achos grymus o sut y byddai'r buddsoddiad arfaethedig yn cefnogi blaenoriaethau economaidd, cymunedol a diwylliannol eu hardal. Dylai prosiectau gyd-fynd yn hollol â, a chefnogi, unrhyw strategaethau lleol perthnasol (megis Cynlluniau Lleol, Strategaethau Diwydiannol Lleol neu Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol) a hefyd unrhyw amcanion lleol ar gyfer buddsoddi, gwella seilwaith a chodi'r gwastad. Dylai prosiectau hefyd gyd-fynd yn hollol ag ymrwymiadau'r DU, fel darparu Sero Net. Os yn berthnasol, dylai cynigion gyd-fynd â buddsoddiadau eraill o ffynonellau ariannu gwahanol.

7.5 Fel y dangosir ym mharagraff 3.8, dylai darpar gynigion a phrosiectau i'w canlyn fod yn cael eu cefnogi gan, ac yn cael eu datblygu ar ôl ymgynghori, gyda rhanddeiliaid a phartneriaid lleol perthnasol, megis awdurdodau lleol eraill ac Aelodau Seneddol lleol. Wrth ystyried y pwysedd y dylid i'w rhoi ar gynigion, y disgwyl yw y bydd Aelod Seneddol yn cefnogi un cynnig y mae'n ei weld fel blaenoriaeth ac y bydd unrhyw gynnig yn gallu cael cefnogaeth a blaenoriaeth oddi wrth lawer o ASau a rhanddeiliaid lleol. Ond efallai y bydd Aelodau Seneddol hefyd eisiau cefnogi unrhyw un neu'r cyfan o'r cynlluniau a fyddai o fudd i'w etholaethau yn y ffordd arferol. Yng Ngogledd Iwerddon, dylai cynghorau lleol dangos a ydyn nhw'n cefnogi'r cynigion o fewn eu ffiniau.

## Gwerth am arian

7.6 Dylai bidiau ddangos sut y maen nhw'n cynnig gwerth cyhoeddus i gymdeithas. Gallai hyn gynnwys, os yn berthnasol, cadw at werthoedd cymdeithasol sydd yn fframwaith gaffael y llywodraeth (gweler Nodyn Polisi Caffael PPN 06/20) neu'r cerdyn sgorio wedi'i gydbwyso. Bydd amrywiaeth o fuddion yn cael eu hystyried yn ein gwerthusiad o werth am arian prosiectau. Mae hyn yn cynnwys i ba raddau y byddai'n rhoi hwb i dŵf economaidd yr ardal, y buddion amgylcheddol (gan gynnwys cyfrannu at lwyddo i gyrraedd ymrwymiadau carbon Sero Net Llywodraeth y DU a gwella ansawdd aer yn lleol), gwella cyfleoedd i gael gwaith, lleihau amser teithio i gael gwasanaethau allweddol, mwy o bobl yn mynd i ganol trefi a dinasoedd, lleihau troseddu a dod â gwerth cymdeithasol i gymunedau lleol.

7.7 Bydd gwahanol gynlluniau'n dangos gwahanol lefelau o werth am arian. Er enghraifft, mae cynlluniau trafnidiaeth lleol fel arfer yn rhai sy'n rhoi'r gwerth mwyaf mewn arian o ymyriadau lleol ac fe fyddwn yn disgwyl, felly, y byddai, yn benodol, welliannau trafnidiaeth lleol wedi'u dylunio ac wedi'u targedu'n dda yn sgorio'n uchel ar y maen prawf hwn. Dylai canllawiau pellach ynghylch pa lefel a math o ddadansoddiad y dylai awdurdodau lleol ei ddarparu ar gyfer cynigion o wahanol feintiau fod ar gael yn fuan ar ôl y Gyllideb.

# Pennod 8

# **Cymryd Penderfyniadau**

8.1 Yn y rownd gyntaf o ariannu, byddwn yn blaenoriaethu prosiectau a fydd yn gallu dangos buddsoddiad neu'n dechrau darparu'n ymarferol ym mlwyddyn 2021-22. Bydd yna gyfleoedd yn nes ymlaen i gyflwyno bidiau mewn rowndiau canlynol. Byddwn yn disgwyl y bydd yr holl arian a fydd wedi'i ddarparu trwy'r Gronfa wedi'i wario erbyn 31 Mawrth 2024 ac, yn eithriadol, yn 2024-25 ar gyfer cynlluniau mwy.

8.2 Ar gyfer y pedwar maen prawf, bydd y cynigion sy'n cael eu symud yn eu blaen yn cael eu hasesu ar bob un o'r meini prawf sy'n cael eu dangos ym mharagraff 7.1.  Yn ei asesiad, bydd Llywodraeth y DU yn ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol a ddarperir yn y cynnig, yn ogystal ag unrhyw ddata sydd ar gael yn gyhoeddus i brofi'r honiadau mewn cynigion lleol.

8.3 Bydd y metrigau sy'n cynnwys y maen prawf asesu 'nodweddion lle' yn cynnwys data'n gysylltiedig â lleoedd'.

- yr angen am adferiad a thwf economaidd.
- yr angen am well cysylltiadau trafnidiaeth; a
- yr angen am adfywio.

## Y fframwaith benderfynu – Lloegr, yr Alban, Cymru

8.4 Unwaith y byddwn wedi derbyn pob bid, byddwn yn eu hasesu yn erbyn y pedwar maen prawf, gyda'r sgôr 'nodweddion lle' yn cael ei benderfynu gan y mynegai o leoedd â blaenoriaeth.

8.5 Yn ogystal â'r asesiadau hyn, bydd cyfle i Weinidogion ymarfer eu disgresiwn i gyfarfod yr ystyriaethau ychwanegol canlynol:

- Sicrhau fod yna raniad thematig rhesymol o brosiectau cymeradwy (e.e. ar draws adfywio a chanol trefi, trafnidiaeth a diwylliant a threftadaeth);
- Sicrhau lledaeniad teg o brosiectau cymeradwy ledled Prydain Fawr;
- Sicrhau cydbwysedd teg o brosiectau cymeradwy ar draws mannau mewn angen;
- Blaenoriaethu un ai 'ffit strategol' neu 'ymarferoldeb gwireddu' neu 'werth am arian' yn fwy na'r meini prawf eraill (dylid cofio bod yn rhaid defnyddio hyn yn gyson ar gyfer pob prosiect);
- Ystyried buddsoddiadau eraill mewn ardal.  Mewn rowndiau yn y dyfodol, gallai hyn gynnwys arian sy'n cael ei ddarparu i ardaloedd drwy'r rownd gyntaf o'r Gronfa hon.

8.6 Bydd manylion pellach o'r broses asesu a sgorio'n cael eu cyhoeddi ar ôl y Gyllideb a hefyd fanylion pellach ar gyfer y fframwaith ar gyfer Gogledd Iwerddon.

# Pennod 9

# **Monitro a Gwerthuso**

9.1 Bydd y Gronfa Codi'r Gwastad yn dangos y pwyslais cynyddol y mae'r Llywodraeth hon yn ei roi ar werthusiad o ansawdd da, sy'n hanfodol ar gyfer deall pa fathau o ymyriadau sy'n gweithio'n dda i ateb heriau codi'r gwastad, drwy brosiectau unigol ac ar draws gwahanol raddfeydd gofodol. Bydd datblygu diwylliant o dwf lleol ac o werthuso trafnidiaeth, sy'n hyrwyddo rhannu dysgu ledled y DU, yn edefyn pwysig yn y gwaith hwn.

9.2 I roi sicrwydd y bydd prosiectau'n darparu gwerth am arian ac yn brydlon, bydd gan y Gronfa Codi'r Gwastad system fonitro gadarn, resymegol. Bydd hon yn cael ei hadeiladu o amgylch dealltwriaeth gyffredin o'r cynnyrch a'r canlyniadau y ceisir eu cael trwy'r Gronfa hon.

9.3 Bydd monitro a gwerthuso'r Gronfa Codi'r Gwastad yn cynnwys cyfuniad o waith gwerthuso lefel genedlaethol gyda monitro a gwerthuso ar lefel prosiect. Bydd gwerthuso ar lefel genedlaethol yn cynnwys cynhyrchu a chyhoeddi fframwaith a chanllawiau monitro a gwerthuso yn ddiweddarach eleni er mwyn cefnogi datblygu gwerthusiadau ar lefel prosiectau. Fel rhan o ddatblygu achos busnes, dylai awdurdodau lleol ddangos cynllun cymesur ar gyfer monitro a gwerthuso ar lefel prosiect.

9.4 Bydd manylion pellach ynghylch y data y byddwn yn ei ddefnyddio fel rhan o'n monitro a gwerthuso, a beth fyddwn ni'n ei ddisgwyl i awdurdodau lleol a phartneriaid darparu ei gyflwyno, yn cael ei gyhoeddi fel rhan o ganllawiau atodol yn dilyn y prosbectws hwn.

# Pennod 10

## Cefnogi lleoedd gyda'u cynigion

10.1 Bydd arian gallu ar gael i'r awdurdodau lleol yn Lloegr sydd fwyaf o angen buddsoddiad codi'r gwastad ac i bob awdurdod lleol yn yr Alban a Chymru i gydnabod, yn wahanol i Loegr, nad yw'r Gronfa Codi'r Gwastad yn disodli unrhyw o'r ffrydiau ariannu presennol. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol perthnasol i ddatblygu cynigion o ansawdd da ac felly'n sicrhau y bydd y Gronfa'n rhannu arian i'r ardaloedd ble y mae'r mwyaf o'i angen ac yn llwyddo i gael cydbwysedd priodol mewn gwariant ledled y DU.

10.2 Dylai ardaloedd ystyried cyfleoedd i uno arian gallu sy'n cael ei dderbyn trwy'r ffrydiau ariannu cysylltiol, megis UKCRF, i gefnogi creu un strategaeth gydlynol, leol, ar gyfer twf ar draws eu hardaloedd.

10.3 Bydd swm penodol o £125,000 o arian gallu yn cael ei ddyrannu i bob awdurdod lleol cymwys. Bydd yr arian gallu hwn yn cael ei ddarparu gyda'r bwriad pennaf o gefnogi'r awdurdodau lleol perthnasol i ddatblygu eu bidiau ar gyfer rowndiau diweddarach o'r Gronfa. Disgwylir na fydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio arian gallu mewn pryd i gefnogi cynigion ar gyfer y rownd gyntaf ac y bydd, yn hytrach, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygu cynigion ar gyfer bidio mewn rowndiau diweddarach. Bydd canllawiau pellach ar gefnogaeth gallu ar gael i awdurdodau lleol yn gynnar ar ôl y Gyllideb, gan gynnwys pa bryd y bydd arian yn cael ei ddyrannu ac ar gyfer beth y gellir ei ddefnyddio.

**Cysylltiadau yn Nhrysorlys Ei Mawrhydi**

Gellir llawrlwytho'r ddogfen hon o
www.gov.uk

Os ydych angen yr wybodaeth ar ffurf arall neu eisiau holi'n gyffredinol am Drysorlys Ei Mawrhydi a'i waith, cysylltwch â;

Correspondence Team
HM Treasury
1 Horse Guards Road
Llundain
SW1A 2HQ

Ffôn: 020 7270 500

Ebost: public.enquiries@hmtreasury.gov.uk